

**PROTOCOLAU**  
**AR GYFER GWEITHGARWCH WYNEB YN WYNEB AR Y CAMPWS**

**Defnyddio Ystafelloedd sy'n cael eu hamserlennu ar gyfer Gweithgarwch Addysgu Dosbarth**

Mae pob ystafell wedi cael eu hamserlennu i sicrhau bod modd gweithredu yn unol â Chanllawiau Covid-19. Trwy weithredu'r camau rheoli a'r protocolau isod, bydd gweithgareddau yn yr ystafelloedd hyn yn cael eu dosbarthu yn weithgareddau risg isel Covid a chânt eu dangos fel gweithgareddau GWYRDD (gweler yr Atodiad).

- Bydd gan bob ystafell gapasiti penodol er mwyn sicrhau pellter cymdeithasol o 2 fetr rhwng pawb.
- Bydd ble y dylai pawb eistedd wedi cael ei farcio ar lawr pob ystafell. Bydd y cadeiriau wedi cael eu gosod ar ben marc ar y llawr sy'n nodi ymhle y ceir lleiafswm pellter cymdeithasol o 2 fetr. Gellir symud cadeiriau a byrddau dros dro os oes elfennau o waith grŵp yn rhan o'r sesiwn hyfforddedig, ond rhaid cadw'r cadeiriau fel eu bod bob amser ar ben y marciau ar y llawr. Ar ddiwedd y sesiwn rhaid rhoi'r cadeiriau a'r desgiau yn ôl yn eu lleoliad gwreiddiol. Mewn darlithfeydd ar oledd a phan fo'r cadeiriau'n sefydlog nid oes modd symud y cadeiriau.
- **Peidiwch â mynd y tu hwnt i'r capasiti sydd wedi ei bennu, sy'n cyfateb i nifer y cadeiriau sydd ar gael.**
- Mae gweithgarwch addysgu wedi ei amserlennu fel bod modd glanhau rhwng pob rhwng dosbarth. Bydd unrhyw fan y gellid ei gyffwrdd wrth addysgu yn cael ei lanhau (e.e. darllenfa, byseddell a llygoden y cyfrifiadur ac ati).
- Bydd deunyddiau glanhau ychwanegol ar gael i chi fedru glanhau'r eitemau hyn eich hun hefyd.
- Mae'n rhaid i staff a myfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb yn holl adeiladau'r Brifysgol.
- Efallai na fydd angen i staff wisgo gorchudd wyneb wrth gyflwyno o flaen dosbarth, gan fod y darllenfeydd ymhellach na 2 fetr oddi wrth y myfyriwr agosaf. Mewn sawl man, efallai y bydd sgrin berspecs wedi ei gosod fel cam diogelwch Covid ychwanegol.
- Gall darlithwyr ac arddangoswyr wisgo gorchudd wyneb a/neu amddiffynnydd wyneb os dymunant. Caiff y rhain eu darparu i bawb sy'n gofyn am un (fe gewch wybodaeth am sut i wneud hynny). Os yw gorchudd wyneb a / neu amddiffynnydd wyneb yn cael ei wisgo, mae'n bwysig eich bod yn parhau i gadw pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Dylid atgoffa myfyrwyr ar ddechrau pob dosbarth na ddylent fod yno os oes ganddynt symptomau Covid-19 ac y dylent fynd i gael Prawf Covid-19.
- Gwnewch yn siŵr bob amser eich bod yn cadw cofrestr o bawb sy'n bresennol yn y dosbarth ac yn cofnodi hynny yn defnyddio'r ap 'Yma!', a fydd o gymorth i gefnogi ymdrechion Profi, Orlhain ac Amddiffyn.
- Dylid annog myfyrwyr i ddiheintio eu dwylo wrth gyrraedd a gadael yr ystafell.
- Rydym yn eich annog bob amser i agor ffenestri'r ystafell er mwyn cael rhagor o awyr iach.
- Defnyddiwch yr hylif diheintio neu golchwch eich dwylo yn rheolaidd.

## Sesiynau un i un ar y campws

Er y cynhelir y rhan fwyaf o gyfarfodydd un i un gyda myfyrwyr ar-lein, rydym yn deall y bydd achlysuron eithriadol pan fydd angen cwrdd â myfyriwr wyneb yn wyneb ar y campws. Mewn sefyllfaoedd o'r fath rhaid dilyn y protocolau canlynol:

- Peidiwch â defnyddio swyddfeydd staff nac ardaloedd cyffredin, gan fod yn rhaid gallu glanhau ystafelloedd cyfarfod yn hawdd a lleihau gymaint ag y bod modd ar y pethau sy'n cael eu cyffwrdd. *Byddwn maes o law yn adolygu'r sefyllfa mewn perthynas â defnyddio swyddfeydd staff.*
- Defnyddiwch ystafell gyfarfod neu ystafell seminar addas lle bod modd cadw pellter cymdeithasol - cofiwch bob amser ystyried pa mor hygyrch yw'r ystafell i'r myfyriwr.
- **Gwnewch yn siŵr fod y cadeiriau yn yr ystafell bob amser wedi'u gosod fel bo modd cadw pellter cymdeithasol o ddwy fetr** a sicrhau eich bod yn cadw pellter cymdeithasol trwy gydol y cyfarfod.
- Dylid cynnal cyfarfodydd trwy apwyntiad yn unig, lle bo hynny'n bosibl. Y rheswm am hynny yw er mwyn lleihau nifer yr ymwelwyr yn yr adeilad ac i allu sicrhau bod ystafell gyfarfod ar gael. Nid ydym o'r farn bod sesiynau galw heibio (heb drefnu apwyntiad ymlaen llaw) yn bosibl o dan y cyfyngiadau ar hyn o bryd oni bai bod yr ystafell wedi'i haddasu i fedru cynnal cyfarfodydd o'r fath.
- Bydd ystafelloedd yn cael eu glanhau'n rheolaidd, ond dylech lanhau unrhyw fannau sy'n cael eu cyffwrdd cyn ac ar ôl pob cyfarfod, yn unol â champau diogelwch Covid.
- Os byddwch yn gweld sawl myfyriwr, un ar ôl y llall, gadewch ddigon o amser rhwng pob apwyntiad er mwyn glanhau ac i sicrhau nad oes raid i fyfyrwyr aros eu tro yn y coridor.
- Cadarnhewch sut y bydd y myfyriwr yn cyrraedd yr ystafell gyfarfod e.e.
  - A all y myfyriwr gael mynediad i'r adeilad?
  - Os na all gael mynediad sut fydd hynny'n cael ei reoli e.e. ffonio ymlaen llaw er mwyn i aelod o staff agor y drws iddynt.
  - Os dylai'r myfyriwr gerdded i'r ystafell gyfarfod ar ei ben ei hun - rhowch gyfarwyddiadau clir iddo/iddi sut i wneud hynny.
  - Os dylid hebrwng y myfyriwr, ble fydd y myfyriwr yn cwrdd â'r sawl a fydd yn ei hebrwng, rhowch ystyriaeth i bellter cymdeithasol, a sicrhau bod y myfyriwr yn diheintio ei ddwylo ac yn gwisgo gorchudd wyneb.
  - Yn gyffredinol, un person yn unig ddylai ddefnyddio unrhyw lifft.
- Defnyddiwch yr ap 'Yma!' ([yma.bangor.ac.uk](http://yma.bangor.ac.uk)) yn FyMangor i gofnodi'r sesiwn a chefnogi'r ymdrechion Profi, Olrhain ac Amddiffyn. Bydd y cyfarfod i'w weld fel gweithgaredd GWYRDD sef pan fo modd cadw pellter cymdeithasol a dilyn y protocolau (gweler yr Atodiad).
- Gofynnwch i'r myfyriwr ganslo'r cyfarfod os oes ganddynt unrhyw symptomau Covid-19 a chadarnhau ar ôl cyrraedd nad oes ganddynt unrhyw symptomau Covid-19.
- Dylai deunyddiau glanhau a hylif diheintio dwylo fod ar gael mewn sawl man ym mhob adeilad.

- Lle bo modd, agorwch y ffenestri a'r drysau i awyru'r ystafell. Gadewch y ffenestri yn agored yn ystod y sesiwn i gael rhagor o awyr iach ac i roi sicrwydd ychwanegol.
- Dylech osgoi rhannu eitemau e.e. beiros.
- Dylid defnyddio hylif diheintio neu olchi dwylo'n rheolaidd.

### **Cyfarfodydd rhwng Staff**

Yn gyffredinol dylid cynnal cyfarfodydd gyda chydweithwyr ar-lein. Fodd bynnag, sylweddolwn y bydd achlysuron pan fydd y ddau aelod o staff ar y safle ar yr un pryd ac y byddai'n fwy hwylus cynnal cyfarfod byr, wyneb yn wyneb.

Mewn amgylchiadau o'r fath dylid dilyn yr egwyddorion a nodir uchod (sesiynau un i un gyda myfyrwyr) cyn belled ag sy'n ymarferol.

Cynghorir staff i beidio ag aros ar y safle ar ôl sesiwn hyfforddedig olaf y dydd.

### **Cyngor Cyffredinol - Gorchuddion Wyneb**

Mae'n rhaid i staff a myfyrwyr wisgo gorchuddion wyneb yn holl adeiladau'r Brifysgol.

- Cyn gwisgo'r gorchudd wyneb, dylid golchi'r dwylo'n drylwyr â sebon a dŵr am 20 eiliad, neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo. Sychwch eich dwylo'n drylwyr cyn gwisgo'r gorchudd wyneb
- Wrth wisgo'r gorchudd wyneb, ceisiwch osgoi cyffwrdd â'r wyneb neu'r gorchudd, gan y gallai hynny ei halogi.
- Parhewch i olchi eich dwylo neu ddefnyddio hylif diheintio dwylo'n rheolaidd
- Ni ddylai defnyddwyr dynnu eu gorchudd wyneb i lawr at eu gwddf na gafael yn y defnydd wrth y trwyn i'w dynnu oddi amdanoch.
- Dylid newid gorchuddion wyneb os ydynt yn llaith neu os ydych wedi cyffwrdd ynddynt.
- Os oes modd golchi'r defnydd, golchwch ef yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Os na ellir ei olchi, gwaredwch y gorchudd yn ofalus yn eich bin sbwriel arferol a helpwch i Gadw Cymru'n Daclus.

Bydd gorchuddion wyneb golchadwy ar gael gan eich Coleg neu Ysgol. Fel y nodir uchod, nid oes rhaid gwisgo gorchuddion wyneb wrth gyflwyno o flaen dosbarth o fyfyrwyr, ar yr amod eich bod yn cadw pellter cymdeithasol.

**Nid yw** gwisgo gorchudd wyneb yn y senarios sy'n cael eu disgrifio uchod yn galluogi gwisgwyr i beidio â chadw at y canllawiau pellter cymdeithasol o 2 fetr. Pan ragwelir bod angen gweithio o fewn 2 fetr i rywun rhaid cynnal asesiad risg ar wahân ac efallai y caiff hynny ei ystyried yn weithgarwch OREN (gweler yr Atodiad).

### **Cyngor Cyffredinol - Amddiffynwyr Wyneb**

- Nid rhywbeth i'w wneud yn lle cadw pellter cymdeithasol neu wisgo gorchudd wyneb yw gwisgo amddiffynnydd wyneb
- Gellir gwisgo amddiffynnydd i gynnig sicrwydd ychwanegol yn ystod sesiynau wyneb yn wyneb. Mewn amgylchiadau o'r fath, dylid defnyddio'r amddiffynnydd wyneb i alluogi'r myfyriwr i weld ystumiau'r wyneb a theimlo'n fwy cartrefol yn ystod y dosbarth neu'r cyfarfod.
- Ni ddylid rhannu amddiffynwyr wyneb.
- Rhaid i staff ymglyfarwyddo â'r holl gyfarwyddiadau a ddarperir, gan gynnwys sut i'w gwisgo, eu glanhau a'u storio'n gywir.

**ATODIAD:**

**Covid-19: Categori Risg Gweithgareddau**

Categori Gweithgarwch 'Covid-19'	Disgrifiad
<b>GWYRDD</b>	<p>Gweithgarwch y gellir ei wneud yn llawn yn unol â chanllawiau diogelu Covid-19</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgarwch y gellir ei wneud yn ddiogel gan gadw lleiafswm pellter cymdeithasol o 2 fetr mewn lleoliadau addas neu yn yr awyr agored, fel arfer am ddim mwy na 2-3 awr, ac nid yw'n dibynnu ar unrhyw gamau lliniaru neu gamau rheoli Covid ychwanegol er mwyn gallu gwneud y gweithgarwch yn ddiogel.</li> </ul> <p>Mae angen gwisgo gorchuddion wyneb ym mhobman yn y Brifysgol.</p> <p>Bydd Asesiadau Risg Cyffredinol ar waith*</p> <p><b>Profi, Olrhain a Diogelu:</b> o wneud gweithgarwch yn y grŵp hwn mae'n <u>annhebygol</u> pe bai achos o Covid-19+ yn y garfan y gofynnir i eraill hunanynysu</p>
<b>OREN:</b>	<p>Gweithgareddau sydd â lefel uwch o risg o drosglwyddo Covid-19 ond y gellir ymgymryd â nhw trwy ddilyn protocolau diogelu Covid ychwanegol. Megis:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgareddau wyneb yn wyneb a wneir am fwy na 15 munud gyda phellter cymdeithasol o rhwng 1 a 2 fetr, hyd yn oed os defnyddir mesurau lliniaru, megis gorchuddion wyneb ac amddiffynwyr wyneb.</li> <li>Gweithgareddau a allai gynhyrchu defnynnau neu erosolau resbiradol ychwanegol, ond nid i lefel sylweddol, a phan na fydd cadw pellter cymdeithasol o 2 fetr yn unig yn ddigonol i reoli risg.</li> <li>Gweithgareddau sy'n cynnwys sawl cyfnod byr lle bydd dau neu fwy yn gweithio o fewn 2 fetr i'w gilydd ac yn gwneud gweithgarwch nad yw'r cynhyrchu defnynnau / aerosolau.</li> <li>Rhannu trafndiaeth, megis bysys.</li> <li>Gweithgareddau eraill sydd â nodweddion risg tebyg i'r enghreifftiau uchod.</li> </ul> <p><b>Cyfiawnhad:</b> Rhaid cyfiawnhau gweithgarwch "Oren" a dim ond pan nad oes dewis ymarferol arall a phan fo modd sicrhau y gellir gwneud y gweithgarwch yn ddiogel y ceir ymgymryd â gweithgarwch o'r fath.</p> <p>Bydd angen cynnal Asesiad Risg Gweithgaredd a/neu lunio Trefniadau Gweithredu Safonol**.</p> <p>Rhaid i'r Pennaeth Ysgol neu Gyfarwyddwr y Gwasanaeth Proffesiynol gymeradwyo unrhyw weithgarwch Oren.</p> <p><b>Profi, Olrhain a Diogelu:</b> o wneud gweithgarwch yn y grŵp hwn mae'n <u>bosibl</u> pe bai achos o Covid-19+ y gofynnir i eraill yn y garfan hunanynysu</p>
<b>COCH</b>	<p>Gweithgareddau na ellir defnyddio trefniadau safonol diogel Covid yn llawn wrth eu gwneud a phan fo posibilrwydd uwch o drosglwyddo Covid-19, er gwaethaf cymryd yr holl gamau rhesymol ymarferol i leihau'r risg. Dyma enghreifftiau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithgareddau lle cynhyrchir lefel uchel o ddefnynnau neu aerosolau lle mae perygl i bobl eraill ddod i gysylltiad â nhw.</li> <li>Canu a gweiddi'n uchel (gan gynnwys corau) y tu allan i gamau rheoli a bennir gan safon genedlaethol briodol.</li> <li>Cyswllt croen ar groen.</li> <li>Cyswllt uniongyrchol o fewn 1 metr, am 1 munud neu fwy.</li> <li>Arferion gweithio agos rheolaidd (e.e. gweithio mewn paruau a thimau bach, yn aml o fewn 1 metr i'w gilydd).</li> </ul>

- Rhannu car gyda rhywun am fwy na 15 munud.
- Gweithgareddau eraill sydd â nodweddion risg tebyg i'r enghreifftiau uchod.

**Cyfiawnhad:** Rhaid cyfiawnhau gweithgareddau "Coch" a dim ond pan nad oes dewis ymarferol arall a bod yn rhaid cynnal y gweithgarwch hwnnw a bod dim modd gwneud hynny mewn unrhyw ffordd arall y gellir ymgymryd â gweithgarwch "Coch".

Bydd angen cynnal Asesiad Risg Gweithgaredd a/neu lunio Trefniadau Gweithredu Safonol\*\*.

Bydd angen cymeradwyaeth berthnasol ar lefel y Pwyllgor Gweithredu i ymgymryd â'r gweithgareddau hyn.

**Profi, Orlhain a Diogelu:** o wneud gweithgarwch yn y grŵp hwn mae'n sicr pe bai achos o Covid-19+ yn y garfan y gofynnir i gysylltiadau eraill hunanynysu

\* Cynhyrchir Asesiad Risg Covid-19 (*gweithgaredd academaidd*) yn ganolog, mewn ymgynghoriad â Cholegau, Gwasanaethau ac Undebau Llafur, fel sy'n berthnasol.

\*\* Cynhyrchir Asesiadau Risg Covid-19 gan yr Ysgol/Gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r adran Iechyd a Diogelwch ganolog ac eraill, fel sy'n berthnasol. Byddant yn ychwanegol at asesiadau risg safonol y gweithgarwch.